

2012 Rhif 49 Cy. 12)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 25 (Bodelwyddan) i
Gyffordd 28 (Rhuallt), Sir
Ddinbych) (Cyfyngiad a
Gwaharddiadau Traffig Dros Dro)
2012**

Gwnaed

9 Ionawr 2012

Yn dod i rym

16 Ionawr 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig neu’i wahardd ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 25 (Bodelwyddan) i Gyffordd 28 (Rhuallt), Sir Ddinbych) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 16 Ionawr 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (*“the lengths of the trunk road”*) yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 yn Sir Ddinbych a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6, yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a’r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

9 Ionawr 2012

G R Morgan

GARETH MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd cerbydau, cerddwyr a beicwyr

- i. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).
- ii. Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).
- iii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).
- iv. Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 25 (Bodelwyddan) hyd at ganolbwynt Cyffordd 28 (Rhuallt).